# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2320(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 30 Hydref 2009

**At Janet Ryder:**

Yn ystod y sesiwn holi ar 20 Hydref, dywedais y byddwn yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ofyn a oes ganddynt gynlluniau penodol ynghylch y math o garchar allai gael ei adeiladu yng Nghymru.

Nid oes ganddyn nhw gynlluniau penodol ar hyn o bryd. Er iddyn nhw ddewis Caernarfon yn wreiddiol fel safle carchar newydd, doedden nhw erioed wedi gwneud penderfyniad ynghylch ei faint na'r categori o garcharor y byddai'n eu cymryd. Fodd bynnag, ar ddydd Mawrth 27 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Carchardai ddatganiad ysgrifenedig y byddai'r Gweinidog Cyfiawnder yn ailddechrau chwilio am safle ar gyfer carchar â 1,500 o leoedd. Dywedodd y byddai'n canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am leoedd carchardai. Mae Caernarfon yn un o'r ardaloedd hynny.

Er bod y Weiniddiaeth Gyfiawnder i bob golwg wedi rhoi addewid i'r Gogledd, rydym yn dal i fod yn awyddus i wybod pa gynlluniau sydd ganddyn nhw yn awr i fynd i'r afael â'r diffyg lleoedd i garcharorion yng Nghymru'n gyffredinol. Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gobeithio cael gair â'r Gweinidog Carchardai cyn gynted â phosibl ynglŷn â hyn.

Ein safbwynt o hyd yw:

Hoffwn fwy o leoedd carchardai yng Nghymru er mwyn i fwy o garcharorion o Gymru fwrw eu dedfryd yng Nghymru.
Hoffwn weld y carchar cyntaf erioed yn y Gogledd.
Hoffwn fwy o lefydd mewn carchardai yn y De.
Hoffwn weld lle i garcharorion benywaidd yng Nghymru.

Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cysylltu ag aelodau cyn gynted ag y caiff unrhyw wybodaeth bellach gan y Gweinidog Carcharorion.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2329(FM) a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar 12 Tachwedd 2009

**At Paul Davies:**

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i gais y Prif Weinidog, a wnaed yn ystod cwestiynau'r Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2009, i'ch hysbysu am wariant disgwyliedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y trefniadau diwygiedig ar gyfer y Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn un o'r pedwar polisi sy'n flaenoriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru a gyhoeddwyd yn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin. Bydd y Fframwaith diwygiedig yn adeiladu ar y Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol presennol ac yn golygu bod y rhai sydd â'r angen ariannol mwyaf yn cael adnoddau cyson a thryloyw sydd wedi'u targedu, yn unol â'n huchelgeisiau cenedlaethol i helpu i sicrhau bod profiad addysg uwch yn trawsnewid bywydau a rhagolygon pawb a all fanteisio arni yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir neu eu statws ariannol.

Mae trefniadau ar gyfer ariannu elfennau'r Fframwaith Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau Cenedlaethol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r sector addysg uwch yng Nghymru.